tafod elái

www.tafelai.net

Ebrill 2004 **Pris 60c** **Rhif 186**

CLOD I GYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Mar Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf wedi cael ei gymeradwyo fel y "Cyngor Sydd Wedi Gwella Fwyaf" mewn seremoni a drefnwyd gan y Local Government Chronicle ac wedi ei noddi gan gwmni yswiriant Zurich Municipal ac Awdurdod Datblygu a Gwella Awdurdodau Lleol.

Mae'r wobr yn bwysig ym maes llywodraeth lleol ac mae'n cydnabod gwaith awdurdodau sy'n rhagori. Mae'r broses feirniadu yn drwyadl ac mae'n rhaid i'r awdurdod ddangos gwellhad sylweddol yn y gwasanaeth i drigolion a busnesau.

Llongyfarchwyd Cyngor Rhondda Cyndon Taf am weithredu nifer o fentrau i adnewyddu ei hun, ar ôl dioddef nifer o anhawsterau yn y blynyddoedd blaenorol. Drwy weithredu mewn ffyrdd newydd crewyd awyrgylch o frwdfrydedd ac egni ymhlith y gweithwyr.

Dywed Lucy de Groot, Cyfarwyddwr Awdurdod Datblygu Llywodraeth Lleol: "Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi sefyll allan fel cyngor sy'n ymrwymedig i wella. Mae'r cyngor wedi harnesu arweinyddiaeth cryf a rheolaeth ariannol cadarn i ddarparu gwasnaeth cyhoeddus o safon. Mae hyn wedi arwain at weithlu sydd wedi ei ysgogi a chymuned sy'n fwy bodlon. Mae'r cyngor yn llwyr haeddu y gymeradwyaeth."

Bu Dysgwyr yr ardal yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi mewn steil ym mwyty Lemon Tree, Coleg Rhydfelin.

Tylunio Indiaidd oedd rhan o'r profiad a gafwyd mewn noson Menter a Busnes yng Nghlwb y Bont i ddathlu Gŵyl Dewi.

LANSIO ALBWM NEWYDD

Clwb y Toucan, Caerdydd oedd y lleoliad ar gyfer lansio album cyntaf Ashokan - "Diolch am ddal y gannwyll". Sefydlwyd y grwp yn wreiddiol yn Ysgol Gyfun Llanhari tua 1996 ac mae Alun Enans o Bentyrch y prif ganwr ac Aled Davies o Donteg yn parhau yn aelodau.

Roedd Ashokan yn chwarae yn rali'r myfyrwyr dros Goleg Ffederal Gymraeg ac mae nifer o gigs wedi eu trefnu yn cynnwys nosweithiau yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 7 Mai 2004
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
27 Ebrill 2004

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd gaiwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CLWB Y DWRLYN

Bowlio Deg

Nos Fercher 31 Mawrth
am 6.30pm
yn y Bae

Nabod y Fro

Taith gerdded lleol gyda
Don Llywelyn
2pm 25 Ebrill
o Neuadd y Pentref,
Pentyrch.

Noson Dathlu 25

gyda Dawnswyr Nantgarw
8pm 21 Mai, Neuadd y
Pentref, Pentyrch.

Manylion: 029 20890040

Taith y Ffilm

Dal: Yma/Nawr

Y Traddodiad barddol yng Nghymru

13 Ebrill - Coliseum, Aberdar
14 Ebrill - Coed Duon

Triniaethau Teithiol
Tylino Chwaraeon Aromatherapi
Tylino Pen Indiaidd Tylino Swedaidd

Iechyd Da

Danny Grehan ICHT. HFST
ffôn :
07881 607 723
ebost :
danny@iechydda.com

www.iechydda.com

CYLCH CADWGAN

Allan James
Diwylliant Gwerin Morgannwg

8.00pm, Nos Wener
7 Mai 2004
Neuadd y Pentref,
Efail Isaf

Gyda chymorth yr academi

YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL CAERDYDD

DARLITH GOFFA G J WILLIAMS

YR ATHRO CERI DAVIES

Lladinwyr y dadeni
ac Urddas y Gymraeg

Nos Fawrth 27 Ebrill am 5.30
Ystafell 2.01, Adeilad y Dyniaethau

Gwahoddir pawb i dderbyniad yn Ysgol y Gymraeg ar ôl y ddarlith

chapter

Treganna, Caerdydd
Cwmni Theatr 3D
Catrin Wyn Jones, Hannah Wynn Jones a Nia Wyn Jones
Endorffin
Iau 15 - Sad 17 Ebrill

Rhuthr o awydd...Ysu am y foment honno o bleser pur....Estyn am yr uchelfan. Cyfres o monologau cyffrous newydd sbon yw Endorffin.

Mae 3D yn gwmni o dair o gyn-fyfyrwyr adran ddrama Prifysgol Cymru Aberystwyth. Ers graddio y llynedd maent wedi symud i Gaerdydd ac wedi mentro i sefydlu cwmni sy'n cyfuno sioeau achlysurol sy'n cael eu sgriptio gan y dair. Dyma'r rhan gyntaf o gyfres o ddramau Cymraeg sy'n treiddio i wraidd meddylfryd merched.

Tocynnau: £5/£4

I archebu tocynnau ffoniwch 02920 304400 neu
www.chapter.org.

Welwn ni chi yno!

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

Ysbyty
Braf yw deall fod Arthur Garnon, Heol y Ffynnon yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd.

Dymunwn yn dda i Sharon Mahoney, Heol Tir Coch a hithau ar fin mynd i Ysbyty Treforys i dderbyn triniaeth ar ei chalon.

Mae'n dda deall fod Huw, mab bychan Ann a Richard Griffiths, Nantcelyn yn gwella ar ôl treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau cynnes i Ruth a Rhodri ap Ieuan ar enedigaeth mab bychan ar Fore Llun, Mawrth 15ed. Croeso i Gruffydd ap Ieuan, ŵyr bach cyntaf i John Llewelyn a Judith Thomas, Nant Celyn.

Prifathrawiaeth
Penodwyd Alun Rees, Heol Iscoed yn Brifathro Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Llongyfarchiadau Alun a phob dymuniad da i chi yn eich swydd newydd.

Arholiad Ffidil
Llongyfarchiadau i Gwenno Rees, Penywaun ar basio arholiad ffidil Gradd 1 gydag anrhydedd.

Pen-blwydd Arbennig
Dwi'n siwr fod ffrindiau Gary Samuel yn yr Efail Isaf am ddymuno'n dda i Gary ar gyrraedd carreg filltir bwysig yn ddiweddar. Fe gei di deithio'n rhad ar y bws nawr.

Dathlu Gŵyl Ddewi yn Y Fenni
Teithiodd aelodau Parti'r Efail i'r Fenni i ddiddanu Cymdeithas Y Cymrodorion ar Nos Wener y 27ain o Chwefror. Menna Thomas oedd yr hyfforddwraig a chyflwynwyd yr eitemau yn ei ddull dihafal ei hun gan Gwyn Hughes Jones. Cyfeiliwyd i'r parti gan Bethan Roberts ac fe gafwyd eitemau gan Rhys Dafis ac unawdau ar y delyn gan Bethan Roberts.

Sglefrfyrddiwr o fri!

Beth ydych chi'n ei wneud i gadw'n heini ? Mae Dewi Rees o Benywaun yn sglefr-fyrddio am oriau benbwygilydd ac rwy'n siwr ei fod yn un o'r bobl mwyaf heini yn y pentref.

Mae'n ymarfer am ryw ddeng awr bob Sadwrn ond nid er mwyn cadw'n heini y bydd Dewi'n gwneud campau ar y sglefr-fwrdd.

Mae Dewi'n cymryd y gamp o ddifri ac yn cystadlu ledled Prydain. Cystal yw Dewi wrth ei grefft nes bod Cwmni'r Wythfed Dimensiwn o Swydd Derby yn ei noddi a'i gyflenwi â dillad ac offer ac mae fideo ohono'n gwneud ei gampau ar wefan y Cwmni.. Pob hwyl iti Dewi yn y gystadleuaeth nesaf yng Nghaerlŷr.

Ffordd Osgoi
Heidiodd trigolion y pentref i'r Neuadd brynhawn Gwener a Dydd Sadwrn y 5ed a'r 6ed o Fis Mawrth i astudio'r cynllun arfaethedig ar gyfer Ffordd Osgoi Garth Olwg, Bydd y ffordd newydd yn dargyfeirio'r traffig drwy gyrion pentref Efail Isaf i geisio osgoi'r tagfeydd presennol sydd ym Mhentre'r Eglwys. Pryder pentrefwyr Efail Isaf yw y gall y ffordd newydd newid natur wledig ein pentref yn gyfan gwbl.

CAPEL TABERNACL
Priodas Aur
Na, nid un Briodas Aur ond dwy. Dyna gyd-ddigwyddiad hynod fod dau gwpwl yn yr Eglwys wedi dathlu eu Priodas Aur yn ystod Mis Mawrth. Llongyfarchiadau gwresog i Harri ac Aneira Davies, Tonteg ar eu dathliad arbennig ar Fawrth 13eg ac i D.J. a Joan Davies, Tonyrefail sydd hefyd wedi dathlu ar Fawrth 20fed.

Ymlaen am y degawd nesaf at y Briodas Ddiemwnt!

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Beti a Gwilym Treharne, Lyn a Ceri a'u teuluoedd ar golli mam Beti yn ystod y mis. Bu Mrs Gwyneth Jones yn wael ei hiechyd am gyfnod hir a chafodd ofal tyner gan y teulu ac yn enwedig gan ei chymar a oedd bob amser mor siriol ag mor ofalus ohoni. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Edwin Lloyd Jones yn ei brofedigaeth.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Mrs Falmai Arnold, Heol y Ffynnon sydd heb fod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar. Brysiwch nôl atom i'r oedfaon. Rydym yn eich colli ar Fore Sul.

Aelodau Newydd
Derbyniwyd tri aelod newydd yn Oedfa'r Cymun ddechrau Mis Mawrth, Braf oedd cael croesawu Eurig Thomas sy'n frodor o Groesgoch, Sir Benfro ac sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Ffynnon Taf ac yn athro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Estynnwn yr un croeso i Ceri Roberts o ardal Trawsfynydd ac i Nia Thompson o Eglwys Minny Street Caerdydd y ddwy ohonynt yn awr yn byw yn Y Creigiau.

Trefn Yr Oedfaon ar gyfer Mis Ebrill
Ebrill 4 Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Gweinidog
Ebrill 11 Oedfa'r Pasg a chymun o dan ofal Y Gweinidog
Ebrill 18 Y Parchedig Eirian Rees
Ebrill 25 Y Parchedig Derwyn Morris Jones.

Cyngerdd Y Corau
Cofiwch gefnogi Cyngerdd Corau'r Pentref ar Nos Su1, Ebrill 25ain.
Bydd yr elw yn mynd tuag at ymdrech Cymorth Cristnogol, Salaam a Shalom.

Salaam - Shalom
Capel y Tabernacl, Efail Isaf

Cyngerdd Corau'r Pentre'
Parti'r Efail Merched y Garth
Côr Godre'r Garth

Nos Sul, Ebrill 25, 2004
7.30 pm

Tocynnau - £4 / Plant - 50c
Oddiwrth: 029 20891426

Elw at Apêl Salaam - Shalom

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

PANTOMEIM
Llongyfarchiadau i Gwmni Drama Sant Barnabas a Chwmni Drama Gilfach Goch ar lwyddiant y Pantomeim 'Mother Goose' a berfformiwyd yn Neuadd yr Eglwys. Mwynhaodd pawb y Pantomeim yn fawr iawn ac roedd y cynhyrchiad yn ardderchog a chawsom sioe deuluol iachus o'r safon uchaf. Ardderchog wir. Rhaid canmol yn arbennig berfformiadau plant a phobl ifanc Eglwys Sant Barnabas. Llongyfarchiadau i Dave Lawrence y cynhyrchydd a'r bobl fu'n ei helpu. Roedd yr elw tuag at Eglwys Sant Barnabas.

TRIP
Mae'r gwanwyn ar fin ein cyrraedd, ond ar ddydd Gwener Mawrth l2ed roedd Gilfach dan drwch o eira a dim byd yn symud peth cynta ond toddodd dros nos a bore Sadwrn roedd y pensiynwyr yn gallu mynd ar drip i Aberhonddu a Chwmbran. Roedd llawer i weld wrth gerdded ar hyd hen strydoedd Aberhonddu a sylwi ar yr hen adeiladau ac yna roedd yn bryd i fynd yn ôl i'r bws a throi tua siopau Cwmbran.Cafodd pawb amser da ond mae'r diolch i bwyllgor Lles y Pensiynwyr am drefnu'r daith.

CAMP YN WIR!
Roedd ei berthnasau yn y Gilfach yn falch iawn i glywed am lwyddiant Chris Morgan sy nawr yn byw ym Meisgyn. Rhwyfodd ar draws yr Iwerydd o Tenerife i Barbados er mwyn codi arian i Apêl Arch Noa. Cafodd Chris sy'n filwr Parachute gyda'r fyddin Tiriogaethol gwmni milwr arall sef Michael Perrin o Wolverhampton. Croeson nhw Mor Iwerydd wrth rwyfo 2,907 milltir mewn 48 diwrnod gan rwyfo tua 70 milltir y dydd. Roedden nhw mor flinedig ar y diwedd ac roedd y gwynt mor gryf fe1 y cymerodd chwe awr i wneud y ddwy filltir olaf i gyrraedd y porthladd. Bydd Arch Noa yn elwa o filoedd o bunnoedd. Ardderchog wir.

CRUFFTS
Llongyfarchiadau i Debbie a Martin Jenkins ar eu llwyddiant yn Cruffts. Enillodd y ci y wobr gyntaf am y gorau yn ei frid ac fe gafodd y ci bach y wobr gyntaf hefyd. Mae Debbie yn magu cwn Mastif.

GWELLHAD BUAN
Gwellhad buan i Lewis Dando Fferm Hendreforgan disgybl yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei goes ar ôl syrthio. Gobeithio y bydd yn well cyn bo hir.

BRAWD NEWYDD
Mae Toni Leigh Price, Thomas Street, sy hefyd yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail wedi cael brawd bach ar ddydd Gŵyl Ddewi. Mae Toni Leigh wrth ei bodd yn helpu gyda'r babi. Llongyfarchiadau i'r rhieni Amanda a Paul Price.

CYLCH MEITHRIN
Mae newyddion da i rieni sydd am anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Tonyrefail, gan fod Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymunedau'n Gyntaf yn gobeithio ail ddechrau'r 'Cylch Meithrin' a 'Ti a Fi' ar ôl y Pasg. Bydd sesiynau yn y Neuadd Gymunedol yn Evanstown a hefyd yn y Neuadd Gymunedol yn Cambrian Avenue. Pob llwyddiant i'r fenter.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Gina Miles

Llongyfarchiadau a Ffarwel
Pob dymuniad da i Craig Duggan a'r teulu wrth iddynt adael Pontypridd am fro enedigol Ffion ym Maldwyn. Mae Craig wedi ei benodi yn Swyddog Iaith Powys ac yn dechrau ar ei swydd yn fuan. Bydd yn chwith ar eu holau yn yr ardal, ond rwy'n siwr y byddant yn dychwelyd yn aml i weld teulu a ffrindiau.

Rydym hefyd yn ffarwelio â Jayne Rees y mis hwn. Mae Jayne wedi ei phenodi yn diwtor Cymraeg yn ardal yr Andes, ym Mhatagonia a bydd i

Craig Duggan

ffwrdd am weddill y flwyddyn. Pob lwc, Jayne, a chofia anfon dipyn o dy hanes atom.

Tra bydd Jayne i ffwrdd, fi fydd yn gyfrifol am Newyddion Pontypridd, felly cofiwch ffonio straeon ataf ar **01443.491288**, neu anfonwch eich e-pistolau at milltiroedd@computingwales.com

Dechrau Canu, Dechrau Cymdeithasu

Bydd Huw Llywelyn Davies yn y sefyllfa ryfedd o gyflwyno ei hun ar 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn hwyrach eleni. Mae'r darlledwr adnabyddus yn aelod o Gantorion Creigiau, sydd wedi cael eu gwahodd i ganu ar raglen yn y gyfres i'w recordio yn Meisgyn. Mae Huw, bellach o Heol y Parc, Pentyrch wedi bod yn aelod o'r côr bron a bod ers y cychwyn 33 o flynyddoedd yn ôl, o dan arweinyddiaeth Mair Roberts.

Mae'r côr yn parhau i fynd o nerth i nerth.Wedi dychwelyd yn ddiweddar ar ôl gwneud dau gyngerdd yn Nulyn mae nhw hefyd wedi perfformio mewn Cynhadledd Ryngwladol yng Ngwesty'r Fro ac yn paratoi at wasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Creigiau. Bydd Cantorion Creigiau ar y llwyfan eto yn Theatr Felin Fach, Llanbed ac yn Nhrelai ym mis Mai, cyn iddyn nhw hedfan allan i wneud cyfres o gyngherddau yn yr Eidal ddiwedd yr haf. 'Croesewir aelodau newydd i'n plith ' meddai Mair Roberts, 'mae gennym raglen o gyngherddau o'n blaen sydd yn rhoi cyfle i aelodau'r côr fwynhau amrywiaeth o ganu gan gynnwys darnau newydd wedi eu comisiynu yn arbennig i'r côr. Digon o ganu …a chymdeithasu'.

Am fwy o wybodaeth am gyngherddau neu manylion ymaelodi cysyllter â Varrion Gapper 01443 207923 neu Cadeirydd y Côr Don Thomas 029 20 890838.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

BETHLEHEM CWMLAI

Llongyfarchiadau mawr i'r Parchedig Philip Thomas Lewis B.Th, ar gael ei alw'n weinidog ar Eglwys Fedyddiedig Saesneg Bethlehem Cwmlai. Mae Phillip a'i wraig wedi ymaelodi ym Methlehem ers ryw dair blynedd bellach ac yn adnabod y rhan fwyaf o'r aelodau.

Brodor o Sir Faesyfed yw Phillip a chafodd ei ordeinio ym 1998 yn Eglwys y Bedyddwyr Nantgwyn lle y cafodd ei godi a bu yn ffyddlon iddi yn ei ddyddiau cynnar.

Mae yn briod ag Elizabeth sydd yn nyrsio yn Ysbyty Athrofaol y Waun Caerdydd. Mae hithau yn frodor o Wiltshire. Mae ganddynt ferch Anna Dwynwen a anwyd ar ddydd Santes Dwynwen 2003, ac maent yn byw yng Ngilfach Goch ar hyn o bryd a chynt yn y Rhŵs yn Ne Morgannwg.

Mae ganddo dipyn o Gymraeg, ond mae'n awyddus i ddysgu ac rwyn siwr y gwnaeth.

Dymuniadau gorau iddo yn ei ofalaeth. Mae gennyf innau ddiddordeb yn yr alwedigaeth am mae yno mae y wraig Joan yn aelod a bum yn ei chwmpeini yn oedfaon hwyr yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf am ei bod yn rhannol ddall.

Cynhelir Cyfarfod Sefydlu tua Mis Mai neu Fehefin a bydd croeso cynnes i bawb i ddod i'r oedfaon bob amser.

Y Parchedig Philip Lewis gyda'i ferch Anna

YMDDEOLIAD

Dymuniadau gorau i Mr Gareth Burridge ar ei ymddeoliad fel Prifathro Ysgol Gyfun Tonyrefail. Yn anffodus mae Gareth wedi ei orfodi i ymddeol oherwydd afiechyd. Gobeithio y caiff adferiad yn y dyfodol.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau mawr i deulu Mrs Cassie Entwistle sydd yng nghartref Gelliseren, ar enedigaeth wyres, Allysha, yn ddiweddar. Mae'r enedigaeth yn unigryw, mae'r teulu erbyn hyn yn bum cenhedlaeth, maent wedi dathlu'r achlysur yn Gelliseren yng nghwmni Cassie sydd yn 97 oed. Gobeithir y gwêl ddathlu eu hun yn gant oed.

Cassie Entwistle gyda'i wyres, Allysha

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

EISTEDDFODAU

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol i ddidoli rhai a fyddai yn mynd i'r Eisteddfod Gylch. Cafodd pawb fwynhad a bu y diwrnod yn lwyddiant gan ei fod yn rhoi profiad byw o ddiwylliant Cymreig i blant sydd ddim yn dod a'r ei draws yn aml y tu allan i furiau'r Ysgol.

Yn fuan wedyn daeth y diwrnod mawr. Cludwyd y plant mewn llu o geir i lawr i Ganolfan Hamdden Llantrisant. Cafwyd llwyddiant fan yma eto. Dyma restr o'r enillwyr :-

Llefaru o dan 8 Harriet John cyntaf
Canu o dan 8 Harriet John cyntaf
Llefaru o dan 10 Natasha Doyle trydydd
Canu o dan 10 Natasha Doyle cyntaf
Llefaru o dan 12 Delun Jones ail
Canu o dan 12 Delun Jones cyntaf
Parti llefaru dan 12
Ymgom dan 12

Dymunwn yn dda iddynt i gyd yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir yn Nhreorci ar yr 20 o Fawrth. Hefyd diolchwn i'r athrawon a Mr Danny Grehan a fu yn brysur yn eu dysgu.

DAWNS WERIN

Dathlwyd Gŵyl Ddewi trwy gynnal dawns gwerin yn y prynhawn. Trefnwyd hwn gan Mr Dyfrig Morgan, ac rydym fel Ysgol yn ddiolchgar iawn iddo. Cafodd y plant lawer o fwynhad, ond yn bwysicach na hynny roeddynt eto yn cael eu boddi mewn diwylliant Cymreig.

PÊL-FASGED

Cynhaliwyd dwy gystadleuaeth pêl-fasged gan y Rhondda Rebels yn ystod yr wythnosau diwethaf. Braf yw dweud i'r Ysgol ddod yn gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Ms Missy Lender am eu hyfforddi.

MYFYRWYR

Dymunwn yn dda i ddwy fyfyrwraig o UWIC sydd wedi dod yn ôl atom sef Miss Bianca Britton a Miss Emma Fawen.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG EVAN JAMES

www.ysgolevanjames.co.uk

Hoffai'r garfan bêl-droed ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am brynu'r crysau newydd. Diolchwn yn arbennig i siop Pontypridd Embroidery am rhoi'r cit inni ac i Mrs Delyth Brown a'r CRA am drefnu'r cyfan. Cyflwynwyd y crysau i'r ysgol gan gwmni Pontypridd Embroidery a daeth Kevin Morgan draw i gyflwyno'r cit ar ran siop ei dad. Mae tîm pêl-droed Evan James bellach wedi cyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth ysgolion de Cymru sydd yn cael ei drefnu gan glwb pêl-droed Dinas Caerdydd. Bydd yr hogia yn cymryd rhan yn y rowndiau terfynol ar Fawrth 24ain. Pob lwc hogia!

YSGOL GARTH OLWG

BRYSIWCH WELLA

Cyfle mis yma i ddymuno'n dda i Mrs Sylvia Davies, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yng nghanol mis Mawrth. Athrawes Blwyddyn 3 / Blwyddyn 4 yw Mrs Davies, ac yn aelod ffyddlon iawn o weithlu'r ysgol ers blynyddoedd. Brysiwch wella Mrs Davies.

GWEITHDY TELYN

Mwynhad pur a budd diwylliannol mawr i holl blant yr ysgol, oedd y bore o weithdy telyn gyda Glenda Clwyd yn ystod mis Mawrth. Cyflwynwyd bore o brofiadau cerddorol a hanesyddol i'r plant, a chodwyd, yn effeithiol iawn, yr ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ein gwneud yn Gymry.

BUDDSODDWYR MEWN POBL

Llongyfarchiadau mawr i holl weithlu'r ysgol, ar sicrhau statws Buddsoddwyr Mewn Pobl, am yr ail dro. Llwyddwyd gyntaf, i ennill y statws yn 2001, ac felly, daeth y cyfnod dair blynedd i ben eleni. Gall yr ysgol nawr gadw'r statws nes 2007.

YMWELIAD ADDYSGOL

Mwynhaodd plant Blwyddyn 1 ddiwrnod ardderchog yn Sain Ffagan yn ystod mis Mawrth, yn astudio arferion coginio'r gorffennol – a'r gegin yn y Castell yn ganolbwynt y gweithgareddau.

CHWARAEON

Llongyfarchiadau i'r bechgyn pêl-droed ar eu hymdrechion yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn y Rhondda yn ddiweddar.

URDD – EISTEDDFOD SIR

Llongyfarchiadau i blant Garth Olwg fu'n cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Sir yn Nhreorci – Eiri Siôn – Unawd Telyn, ddaeth yn gyntaf; Caitlin Penry – dawnsio Disgo unigol – ddaeth yn ail; a'r grwp Dawnsio Disgo "Dawnswyr Disglair" hefyd ddaeth yn ail. Diolch yn fawr i'r hyfforddwyr, yn arbennig Ashley Fitzgerald a Caitlin Perry, dwy gyn-ddisgybl, sydd nawr yn Rhydfelen.

CYNGERDD TELYN

Bydd Elinor Bennett y delynores enwog yn dathlu
CARNHUANAWC A'R DELYN DEIRES
mewn cyngerdd yn Eglwys Carnhuanawc yng Nghwmdu (ger Crughywel)
Dydd Gwener Mai 14 am 7-30 y.h.

Pris tocynnau £9.50 (gostyniadau £6.50)
Tocynnau a manylion oddiwrth Paul Silk (01874 730759 neu PaulSilk@aol.com) neu Abergavenny Music, 23 Stryd y Groes, Y Fenni

A hoffech chi roi sglein ar eich Cymraeg neu wybod mwy am hanes a llenyddiaeth Cymru a'r gwledydd Celtaidd?

Dyma eich cyfle **CHI** i brofi addysg prifysgol drwy ddilyn cyrsiau rhan-amser dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

AI DYMA'R CYFLE Y BUOCH YN DYHEU AMDANO?

- Ehangu gwybodaeth
- Ennill cymhwyster
- Gwneud ffrindiau newydd
- Gwireddu breuddwyd oes

Anfonwch **NAWR** am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.

Gradd Allanol
Mari Elin Jones
Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX
01970-622050 E-bost: mlj@aber.ac.uk

Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

YSGOL GWAELOD Y GARTH



CWIS LLYFRAU
Cynhaliwyd Rownd Gyntaf y Cwis Llyfrau ar Ddydd Iau, Chwefror 12fed yng Nghanolfan Howardian. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm sef tîm Bl3 a tîm Bl5, am ei perfformiad gwych. Rydym yn ddiolchgar i Mrs Esmi Griffiths a Miss Bethan Thomas am eu gwaith caled wrth baratoi y plant.

Aeth y ddau dîm ymlaen i gystadlu yn yr ail rownd yng Nghanolfan Howardian ar Ebrill 21ain ac yn Ysgol Gyfun Glantaf ar Ebrill 22ain. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Heledd Wyn Hardy a Peter Davies am eu help gyda'r cyflwyniadau ar gyfer yr ail rownd.

POBOL Y CWM
Bu criw ffilmio'r BBC yn yr ysgol ar Ddydd Mawrth, y 10fed o Chwefror i ffilmio un sefyllfa ar gyfer Pobl y Cwm. Cafodd plant dosbarthiadau 1C a 3C y cyfle i gymryd rhan yn y recordio. Darlledwyd yr eitem ar raglan Pobl y Cwm ar Fawrth 1af.

APWYNTIAD MRS SARAH JONES
Mae'r Bwrdd Llywodraethol wedi apwyntio Mrs Sarah Jones o'r Eglwys Newydd fel athrawes i rannu swydd gyda Mrs Alison Davies yn nosbarth 1C. Mae Mrs Jones yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ac yn gyn ddisgybl o Ysgol Gwaelod y Garth ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Bydd Mrs Jones yn dechrau ei swydd yn yr ysgol ar ôl Gwyliau'r Pasg.

DIOLCH YN FAWR I MISS BETHAN THOMAS
Yn anffodus, ar ddiwedd y tymor yma byddwn yn colli gwasanaeth Miss Bethan Thomas sydd wedi bod yn dysgu yn nosbarth 4C ers mis Medi. Rydym yn ddiolchgar iawn i Miss Thomas am ei gwaith caled a'i brwdfrydedd yn ystod y cyfnod yma. Mae hi'n athrawes arbennig o dda ac mae hi wedi gosod esiampl dda i'r disgyblion. Mae'r plant yn hoff iawn ohoni ac yn ei pharchu. Fe welwn eisiau ei phersonoliaeth hawddgar yn yr ysgol. Dymunwn pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd ac yn y dyfodol.

Ar ôl Gwyliau'r Pasg bydd Mr Eirian Williams yn dychwelyd i'r dosbarth, i ddysgu dosbarth 4C.

DIWRNOD Y LLYFR
Bu'r plant yn dathlu Diwrnod y Llyfr ar Fawrth 4ydd. Roedd pawb yn awyddus i ymuno yn yr hwyl drwy wisgo fel cymeriad allan o hoff lyfr. Hoffwn ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth gyda'r gwisgoedd lliwgar.

EISTEDDFOD GŴYL DEWI
Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol yn Neuadd y Pentref ar Ddydd Llun, Mawrth 1af. Cafwyd eitemau bendigedig gan bob un o'r dosbarthiadau. Roedd gwaith called yr athrawon a'r plant yn amlwg iawn.

Mae enillwyr medalau yn Eisteddfod Dydd Gwyl Dewi isod

MEDALAU YR YSGOL

MEDAL LLAWYSGRIFEN CA1
Ennillydd: Daniel MacNamara
MEDAL LLAWYSGRIFEN CA2
Ennillydd: Caio Redknap
MEDAL YSGRIFENNU CREADIGOL CYMRAEG CA1
Ennillydd: Steffan Samuel
MEDAL YSGRIFENNU CREADIGOL CYMRAEG CA2
Ennillydd: Tomos Watkins
MEDAL YSGRIFENNU CREADIGOL SAESNEG CA1
Ennillydd: Ryan Stadden
MEDAL YSGRIFENNU CREADIGOL SAESNEG CA2
Ennillydd: Charlotte Martin

YSGOL HEOL Y CELYN

Yn gyntaf rhaid llongyfarch Mr Alun Rees ar ei benodiad yn Brifathro Ysgol Heol Y Celyn. Mae'r newyddion yn plesio'r plant, staff a'r rhieni am fod pawb yn ei adnabod yn barod gan ei fod wedi bod yn ddirprwy yn yr ysgol ers nifer o flynyddoedd, yn ogystal â phennaeth dros dro am y flwyddyn ddiwethaf. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Bu'r plant a'r athrawon yn brysur iawn yn paratoi at yr Eisteddfod Gylch. Talodd yr holl waith caled gan i Rachel Williams, Lucinda Childs a Craig Cox ddod yn gyntaf yn llefaru a chanu - da iawn nhw. Nawr rhaid cario ymlaen a'r holl waith caled i gysta.dlu yn yr Eisteddfod Sir ar Fawrth y 20fed.Pob lwc i bob un sydd yn trio.

Cafodd tîm rygbi'r ysgol dipyn o lwyddiant hefyd gan iddynt gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth yr Urdd. Ond yn anffodus colli oedd eu hanes yn erbyn Ysgol Rhyd y Grug o 14-7. Gan eu bod wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y gystadleuaeth maent yn parhau i'r rownd derfynol genedlaethol (national final) yn Llanelli ym mis Mai, pob lwc iddynt yno. Mae capten y tîm sef Ieuan Parsons wedi cael ei ddewis ar gyfer treial Dwyrain Cymru hefyd - da iawn ti Ieuan.

Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816



YSGOL GYNRADD CREIGIAU

CROESO
Croeso mawr i Miss Thomas i'r Feithrin, i Mrs Hussey i Class Four, ac i ddau blentyn newydd, Lucy Chinnick a Mathew Stuart.

EISTEDDFOD
Ar Fawrth y cyntaf cawsom ni eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi. Cafodd pawb hwyl a roedd yr atmosffer yn drydanol. Roedd hi'n hawdd gwybod i ba dŷ yr oedd pawb yn perthyn oherwydd roedd Class 6 wedi cynhyrchu bathodynnau a'u gwerthu nhw i weddill yr ysgol ar y diwrnod a rai dyddiau'n gynt. Codon nhw tua £70 sy'n mynd i dri o blant yr ydym yn eu noddi yn y Gambia. Collwyn enillodd y tlws am y drydedd flwyddyn ond dim ond marc a hanner oedd rhwng y pedwar tŷ!

FFAIR LYFRAU
Ar y pedwerydd o Fawrth, sef Diwrnod y Llyfr, cynhaliodd aelodau Cyngor yr Ysgol Ffair Lyfrau. Codwyd £330 sy'n mynd tuag at wahanol brosiectau yn yr ysgol a bydd y llyfrau sydd ar ôl yn mynd i Apêl Arch Noa.

CELF A CHREFFT YR URDD
Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau yn Eisteddfod yr Urdd:-
Owen Morgan – cyntaf am lun lliw unigol.
Catrin Williams- cyntaf am ei Gwaith Creadigol Drws fy Mywyd i.
Megan Clements- cyntaf am ei Gwaith Creadigol 2D.
Aled Herbert- ail am lun lliw unigol.
Hannah Innes- ail am ei Gwaith Creadigol 2D.
Grwp Dosbarth 1- ail am eu model o'r Titanic - Gwaith Creadigol 3D.

EISTEDDFOD GYLCH YR URDD
Llongyfarchiadau calonnog i'r teulu dawnus a fu'n cystadlu ar lwyfan yr eisteddfod, sef, Catrin Herbert a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth offerynnau pres dan 12 a'i brawd bach Aled a ddaeth yn drydydd ar yr unawd dan 10oed. Geraint, y brawd mawr oedd yn cyfeilio i'r ddau. Ardderchog!

YMWELIADAU
Daeth y prifardd Cyril Jones i ymweld â Dosbarthiadau 4 a 5 i geisio symbylu ac arwain y plant tuag at gyfansoddi barddoniaeth. Cawson nhw fore arbennig ac mae llond dau ddosbarth o "feirdd" brwdfrydig yn yr ysgol erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn iddo fe ac i Lem.

Cafodd plant y Feithrin a'r Babanod Cymraeg brynhawn wrth eu boddau gyda Mrs Loreen Williams, awdures Marged a'r Dinosor, llyfr sy'n ffitio'n daclus o fewn eu thema y tymor hwn, I Ffwrdd â Ni. Gweithiodd yn y pedwar dosbarth ac mae'n amlwg iddi sbarduno'r plant gan fod nifer ohonynt yn cael blas ar fod yn awduron eu hunain erbyn hyn.Diolch o galon iddi.

CERITH TÂN
Na, doedd dim tân yn yr ysgol ond efallai eich bod wedi gweld yr injan dân yn yr ysgol un prynhawn dydd Gwener. Aeth Dosbarthiadau 1,2 a 3 fesul dosbarth i weld yr injan, y wisg a'r offer i gyd a chael cyfle i ddefnyddio'r biben ddŵr.Yn anffodus daeth galwad brys 999 a bu'n rhaid i'r injan a'i chriw adael cyn i Ddosbarth 1 gael y cyfle i'w gweld.Ond,yn ffodus,daeth yr injan a'i chriw yn ôl ar ddiwrnod arall a dyna blesio pawb.

TAG RYGBI
Ar y deuddegfed o Fawrth aeth y tîm tag rygbi i chwarae mewn twrnament fechan yn Ysgol Melin Gruffydd. Chwaraeon nhw ddwy gêm gan golli yn erbyn Y Wern a chael gêm gyfartal yn erbyn Melin Gruffydd. Cafodd pawb hwyl yn chwarae er bod y gwair yn wlyb a rhai ohonom yn fwdlyd erbyn dod nôl.

YSGOL CASTELLAU

Eisteddfod Gylch
Diolch i bawb am eu cyfraniad i'r Eisteddfod Gylch yn y ganolfan Hamdden yn Llantrisant ar fore dydd Gwener Chwefror 27.
Llongyfarchiadau i Erika Davies am y trydydd gwobr am ganu o dan 10 oed ac i Jay Worley am ennill yr ail wobr yn yr unawd o dan 12.

Croeso
Braf yw cael cwmni Mr Steve Lamb sydd yn ymarfer ei Gymraeg ymhlith staff a phlant Castellau y tymor hwn.
Croeso cynnes hefyd i Mrs Elaine Noden ein hathrawes ffidil newydd. Diolch i Miss Siân Jenkins am ei chyfraniad i'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Pentre' Ifan

Bydd 5 o ddisgyblion Blwyddyn 5 yr ysgol yn mwynhau tridiau ym Mhentre Ifan ym Mis Mawrth o dan ofal Miss Petra Davies. Pob hwyl iddynt.

Rygbi
Aeth tîm rygbi'r ysgol i gystadleuaeth 10 bob ochr yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Llanharan. Colli oedd yr hanes yn y 2 gyntaf ond enillodd y tîm yn erbyn Llwyncelyn a Gartholwg. Da iawn chi.

Sioe Diogelwch y Ffordd
Mwynhaodd plant ac athrawon yr adran Iau y sioe yma. Roedd y sioe yn fywiog ac yn llawn hwyl wrth i'r disgyblion ddysgu sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

C.RH.ac A
Cynhelir noson Bingo yn neuadd yr ysgol ar nos Fercher Mawrth 31 am 6.30.

Sioe Hetiau
Bydd plant y Feithrin a'r Derbyn yn cynnal sioe hetiau yn neuadd yr ysgol ar brynhawn dydd Mawrth, Mawrth 30.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Sioe Gristnogol
Ar Chwefror 24ain, fe ddaeth cwmni "Open Door" i'n diddanu gyda sioe ar thema Gristnogol.

Eisteddfod Gylch yr Urdd
Fe aeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i Ganolfan Hamdden Llantrisant ar Chwefror y 27ain, er mwyn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Cafwyd sawl llwyddiant. Llwyddodd Rhys Thomas o Flwyddyn 2 i ennill yr ail wobr am lefaru dan 8 a'r trydydd gwobr am unawd. Fe ddaeth Heti Edge yn ail am lefaru dan 10, a Chatherine Hill-Tout yn drydydd am lefaru dan 12. Ond llongyfarchiadau arbennig i'r Parti Unsain, Charlotte Hughes (Llefaru dan 12) a Rhian Hughes (Llefaru dan 10) am ddod yn gyntaf yn eu cystadlaethau hwy. Bydd y Parti Unsain a'r ddwy chwaer, Charlotte a Rhian, yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ar Fawrth yr ugeinfed. Pob lwc iddynt.

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Sharon Krieger, ein hysgrifenyddes, ar enedigaeth bachgen bach, sef Dyfan Glyn, ar Chwefror y 26ain. Mae holl blant a staff yr ysgol yn anfon eu dymuniadau gorau i Sharon, Huw ac Iwan, y brawd mawr!

Rygbi
Ar Ddydd Mercher y trydydd o Fawrth, aeth grŵp o fechgyn draw i gae rygbi Llanharan i chwarae yn nhwrnament yr Urdd. Y bechgyn fu'n chwarae oedd Ieuan Hicks, Tom Green, Dewi Shorrock, Josh Davis, Adam Lewis, Tom Buckle, Tom Loosemore, James Lee, Richard Lawrence, Jack Pring, Adam Tilly, Dafydd Williams a Luke Edwards (capten). Er i'r tîm chwarae'n dda, colli pob gêm wnaethon ni. Diolch i Mr Paul Muir am ein hyfforddi ac i Mr O'Neil am fynd â ni i Lanharan.
gan Tom Green, Josh Davies, Dewi Shorrock a Ieuan Hicks, Blwyddyn 5

Diwrnod y Llyfr
Roedd Mawrth y 4ydd yn ddiwrnod cyffrous yn yr ysgol ac yn gyfle i bawb ddathlu "Diwrnod y Llyfr". Cynhaliwyd amryw o weithgareddau diddorol gan gynnwys gwisgo fel cymeriadau o lyfrau, dangos hoff lyfrau, creu cloriau newydd ar gyfer llyfrau, cyfansoddi cerddi am lyfrau, ymweld â llyfrgell Llantrisant a gweithdy "Y Plant fel Awduron".

Daeth Ms Carys Llywelyn i helpu plant Dosbarth 5 mewn gweithdy sgriptio. Dychwelodd Carys atom ymhen yr wythnos er mwyn helpu'r plant i lwyfannu eu dramâu a'u perfformio o flaen Dosbarth 6. Diolch yn fawr iddi.

Bydd Mrs Loreen Williams yn ymweld â Dosbarth 4 yn fuan er mwyn trafod ei llyfrau.

Blwyddyn 6
Ar Fawrth y 26ain aeth disgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari ar gyfer "Diwrnod Ffrengig" ac ar y 31ain, fe gafon nhw gyfle i ymuno â'r "Criw Craff" yn Nhrefforest.

Y Parchedig Ifor Rees, MA BD

Ar Fawrth 3ydd, 2004, cynhaliwyd gwasanaeth angladd diacon hynaf Bethlehem, Gwaelod y Garth, sef y Parchedig Ifor Rees, Rhiwbina. Bu Ifor farw yn 82 mlwydd oed yng nghanolfan Holme Tower, ar Chwefror 27, o fewn dyddiau i'w benblwydd ar Ŵyl Ddewi. Ar adegau pan oedd Bethlehem yn ddiweinidog fe fu yng nghofal yr eglwys. Arweinwyd y gwasanaeth ym Methlehem gan ei weinidog, Parchedig Gareth Evans Rowlands, a chymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig Eirian Rees, Efail Isaf.

Havard Gregory, Minny Street, (un o blant y mans ym Methlehem) oedd yn talu'r deyrnged a chlywyd am yrfa ddyfal ac amrywiol Ifor Rees, o'i enedigaeth yn Glasgow, ei fagwraeth yn ardal Mynyddbach, Abertawe, ei ddyddiau yn y coleg a'r weinidogaeth cyn troi i fyd darlledu a llenydda. Fe'i cofir o dyddiau cynnar darlledu Cymraeg fel un hanner o'r ddeuawd ysgafn gyda'r diweddar Dafydd Evans ac yna fel cynhyrchydd rhaglenni dogfen i'r BBC ac S4C wedi hynny. Roedd hefyd yn awdur toreithiog ac fe dderbyniodd radd MA er anrhydedd yn 1996 am ei waith.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu - eu ddwy nith, Menna ac Anne ac hefyd ag Esme, fu'n gofalu amdano dros ei flynyddoedd olaf. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Soar, Pontyberem, yn ddiweddarach yr un diwrnod.

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Diane James

COLLI EDDIE REA
Bu farw Eddie Rea, Groesfaen, ar ddechrau mis Mawrth. Roedd yn adnabyddus yn yr ardal fel Rheolwr Cwmni Wella a chwmniau eraill ac roedd yn weithgar yn cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol.
Ein cydymdeinlad i'w wraig, Martha a'r teulu.

CYDYMDEIMLAD
Dymunwn gydymdeimlo â Beti Treharne, Lower Dale Drive, a'r teulu ar golli mam Beti yn ddiweddar. Magwyd Beti yng Nghaerdydd ac mae ei thad yn parhau i fwy yno.

PENBLWYDD
Dymuniadau gorau i Geraint Price, Portreeve Close, ar gyrraedd oedran arbennig a chael cyfle i ymddeol ar ôl 24 mlynedd o wasanaeth i'r Amgueddfa Genedlaethol.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT
Bu'r Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mharc Bryngarw. Cafwyd gwledd arbennig ac anerchiad diddorol gan Brian Davies, Creigiau. Cafwyd nifer o hanesion o'i gyfnod fel chwaraewr rygbi rhyngwladol ac o'i brofiadau fel sylwebydd rygbi i Radio Cymru.

EISTEDDFOD SIR
Dymuniadau gorau i Mia James, Ysgol Llanhari, sy'n cynrychioli'r ardal yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn y gystadleuaeth Llefaru Unigol dan 15 oed.

CLWB RYGBI LLANTRISANT
Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth eleni ac un o'r uchafbwyntiau diweddar oedd curo tîm Penygraig 150 - 3. Prif sgoriwr Llantrisant oedd Jason Alford gyd 50 o bwyntiau.

YSGOL GYFUN LLANHARI

Rygbi
Mae tîmau Blwyddyn 9 ac 11 wedi cael llwyddiant yn ddiweddar, fe fuont yn chwarae yn erbyn Ysgol Fonedd Millfield ac fe enillodd y ddau dim eu gemau. Mae hyn yn arbennig o dda gan gysidro fod Millfield yn ysgol sy'n arbenigo mewn chwaraeon.

Mentora.
Yn Mentor y flwyddyn yma rydw i wedi mwynhau siarad am fywyd ar ôl ysgol ac ymarfer ar gyfer cyfweliadau. Yn y cyfnodau Mentor rydym ni wedi ymarfer gwneud "CV's". Bu Angharad ein mentor ni hefyd yn mynd dros wahanol fathau o adolygu a hefyd ein helpu ni i greu amserlen adolygu ar gyfer y ffug brofion TGAU. Ar ddiwedd y flwyddyn cawsom gwis bach ac fe fwynheais i hynny. Matthew Cassidy.

Matthew Cassidy

Ecoddysgu.
Fe fum i o Flwyddyn 10 ar 2 ddiwrnod o brofiad gyda'r grwp Ecoddysgu. Roedd yna amrywiaeth o bethau i'w gwneud fel gwneud modrwyon allan o wahanol fetalau, gwnio, peintio a chael "head massage" ac amrywiaeth o bethau eraill hefyd. Roedd y lle ar safle fferm yn agos i Tondu. Roedd yn rhaid i mi dalu £2 am y bws i fynd yna ac am fy nghinio. Am y cinio fe gefais frechdanau, creision a diod. Roedd popeth yn cychwyn am 9 o'r gloch ac roeddwn yn ôl yn yr ysgol erbyn 3 o'r gloch. Ar yr ail ddiwrnod roedd cyfle i ni aros nes 5 os oeddem eisiau oherwydd bod band wedi cyrraedd yna. Roedd yna lawer o bobl o wahanol lefydd ond fi oedd yr unig un o Ysgol Llanhari fu yna. Roeddwn wedi mwynhau yn fawr iawn, y peth hoffais i fwyaf oedd gwneud modrwyon allan o fetel oherwydd ei fod yn brofiad gwahanol iawn i mi. Roedd y bobl yna yn gefnogol iawn ac fe hoffwn fynd yn ôl yna yn y dyfodol.

Vivien Jones.

Aelodau o dîm rygbi Blwyddyn 9

Ymweliad â Gwlad Pwyl.
Mae Carly Jones a Jonathon Phillips o flwyddyn 12, wedi cael eu dewis i fynd ar daith gyda'r Urdd i gynorthwyo gyda gwaith trwsio ac atgyweirio cartref i blant amddifad yng ngwlad Pwyl. Mae dwsin o bobl ifanc o ysgolion de ddwyrain Cymru wedi cael eu dewis, a byddant yn teithio allan yna am bythefnos yn ystod yr haf. Mae angen i'r disgyblion godi £600 yr un er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith yng ngwlad Pwyl. Mae Carly yn barod yn weithgar iawn gyda'r Urdd yn yr ysgol gan eu bod hi a Leon Welsby yn trefnu pethau yr Urdd yn Llanhari gyda Mrs Hill.

Cân i Gymru.
Ar nos Lun Mawrth l, fe fu Aneurin Barnard o Flwyddyn 12 (cymeriad Culhwch yn Yn ôl i Annwn) yn cymeryd rhan yn y Gystadleuaeth Cân i Gymru. Roedd yn barod wedi Ilwyddo yr wythnos cynt i ddod trwyddo i'r 8 gan olaf. Enw ei gan oedd "Ar Noson Fel Hon" , Bu'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Casnewydd ac roedd tua 2000 o bobl yn y gynulleidfa, roedd hyn yn golygu y gallai y nerfau fod wedi effeithio ar y perfformwyr. Canodd Aneurin yn arbennig o dda ac fe lwyddodd i dderbyn 1743 0 bleidleisiau dros y ffôn a thestun. Yn anffodus wnaeth e ddim ennill ond fe wnaeth yn arbennig o dda i gael y 4ydd safle. Pob lwc iddo yn ei ddyfodol wrth ganu. Roedd y noson yn cael ei dangos yn fyw ar S4C.

Vivien Jones

Carly Jones a Jonathon Phillips

Canwio i Gymru.
Mae David Ballenger Blwyddyn 11 a Rhys Thomas Blwyddyn 9 wedi cael eu dewis i gymeryd rhan mewn treialon canwio ym mae Caerdydd ar y penwythnos yma. Mae'r ddau ohonynt yn barod yn canwio gyda yr "Afan Valley Paddlers" ac yn edrych ymlaen at y dasg o ganwio am tua 8 awr yn y bae. Byddant yn cael eu dewis i ganwio dros Gymru os ydynt yn llwyddiannus Dydd Sadwrn.

David Ballenger **Rhys Thomas**

Bocsio Cicio dros Gymru.
Mae Liza Stone o ddosbarth 9L wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth bocsio cicio yn ninas Dulyn yn Iwerddon ar y penwythnos. Mae hi wedi bod yn gwneud y gamp yma ers ychydig dros flwyddyn, mewn clwb sydd yn cyfarfod yn llyfrgell Pyle ger ei chartref. Bydd Liza yn cystadlu yn erbyn unigolion eraill ar draws Prydain yn y gystadleuaeth yma.

Liza Stone

Olew at Anhwylder Croen

Os hoffech chi wybod ychydig bach mwy am yr olewydd naws fwyaf poblogaidd sydd ar gael yn y siopau, darllenwch y gyfres yma gan Danny Grehan sydd wedi dechrau gweithio fel aromatherapydd/tylinydd teithiol. Enw ei gwmni yw Iechyd Da (am wybodaeth ewch i'w wefan – iechydda.com).

Y trydydd olew naws i ni edrych arno fe yw Camri neu camomeil (Chamaemelum nobile). Daw'r enw o'r Groeg kamaimelon – afal y ddaear, ac yn wir mae gan yr olew hwn arogl melys-sych afalaidd. Cynhyrchir yr olew drwy ddefnyddio pennau'r blodau.

Mae iddo hanes hir iawn ym myd "meddygaeth" drwy Ewrop gan leddfu anhwylderau'r corff a'r enaid. Cafodd ei ddefnyddio gan yr Eifftwyr dros 2000 o flynyddoedd yn ôl. "Maythen" oedd enw'r Sacsoniaid ar y blodyn a chafodd ei ystyried yn un o'r naw perlysieuyn sanctaidd. Cafodd ei weld hefyd fel meddyginiaeth i blanhigion eraill gan ei fod yn hybu iechyd planhigion oedd yn tyfu ger llaw.

Dyma olew tyner sydd yn addas i'w ddefnyddio gyda phlant. Mae'n effeithiol iawn at anhwylderau'r croen, ac fe welir camri yn fynych iawn mewn cynnyrch ar gyfer babis. Trwy ei gymysgu gyda olew craidd (fel almwnd, neu hadau grawnwin) gellir ei ddefnyddio i drin problemau megis croen sych, ecsema neu acne. Mae'n dda iawn hefyd am drin toriadau i'r croen, crafiadau, llosg neu unrhyw chwyddo. Gan ei fod yn lleihau chwyddo gellir ei ddefnyddio ar gyfer chwyddo mewn cyhyrau neu o gwmpas y cymalau.

Gellir defnyddio camri ar compres twym i leddfu poenau misglwyf neu boenau crampiau yn y stumog, neu ar gyfer babi sy'n dioddef o golig.

Mae hi'n olew hynod ddefnyddiol i leddfu'r enaid, a gallwch ei ddefnyddio mewn llosgydd neu mewn olew ar gyfer tylino i leddfu nerfau brau sydd wedi eu hachosi drwy ofid neu orweithio (sydd yn ei hunan yn creu cymaint o sgil effeithiau). Gellir ei ddefnyddio i dawelu plant sydd wedi eu cynhyrfu, cyn mynd i'r gwely efallai.

Er bod hyn yn olew ardderchog ar gyfer anhwylderau'r croen mae angen cymryd gofal os oes croen hynod sensitif gyda chi. Defnyddiwch ond ychydig ar y tro. Peidiwch â'i ddefnyddio yn ystod tri mis cyntaf beichiogrwydd.

Mae'n cymysgu'n dda iawn gydag olewydd sitrws, lafant, rhosyn, ylang ylang a clary sage. Cysylltwch am fwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r olewydd.

Mis nesaf…Tea tree

Lluniau o Sir Forgannwg ar y we

Gall caredigion yr hen Sir Forgannwg bellach weld printiadau hynafol o'r ardal brydferth hon am y tro cyntaf ar wefan Drych Digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r gweithiau yn ran o'r casgliad eang o tua 14,000 o Brintiau Topograffig a Thirlun o ddiddordeb Cymreig a gedwir yn y Llyfrgell.

'Ymysg yr enghreifftiau mwyaf nodweddiadol o'r casgliad mae golygfeydd o drefi, cestyll, adeiladau eglwysig, maenordai, cofgolofnau neu adeiladaeth arloesol fel y bont ym Mhontypridd,' medd Gareth Wyn Davies, Llyfrgellydd Cynorthwyol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

'Gellir dyddio'r mwyafrif o'r casgliad rhwng 1750 ac 1850 a oedd yn gyfnod arwyddocaol am i nifer o artistiaid ymweld â Chymru a chymryd mwy o ddiddordeb mewn topograffi Cymreig, ac yn ail am i gynhyrchu deunydd printiedig gynyddu'n arwyddocaol yn ystod y cyfnod', ychwanegodd Gareth.

Fel arfer mae'r term topograffig yn cyfeirio at ddarlunio golygfa tirlun mewn modd cywir, cynrychioliadol. Yn aml mae print tirlun yn dangos nodweddion topograffig, ond gallai hefyd fod yn ddehongliad gan yr artist o olygfa nad yw'n ddigon cynrychioliadol neu'n ddigon cywir yn ddaearyddol i'w alw'n dopograffig.

Medd Andrew Green, Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol 'Fel rhan o'i pholisi i ehangu mynediad o bell i'w chasgliadau ac fel rhan o gynllun cyffrous Tirlun Cymru mae'n fwriad gan y Llyfrgell i ddigido ei holl ddaliadau o brintiau topograffig. Fe wneir hyn fesul siroedd cyn-1974 a braf yw nodi fod y broses o ddigido printiau'r sir gyntaf, sef Sir Forgannwg, bellach wedi ei chwblhau'.

Gellir gweld y lluniau o Sir Forgannwg drwy glicio ar y ddolen www.llgc.org.uk/drych/drych_c043.htm

Ymysg y delweddau eraill ar wefan Tirlun Cymru mae: Castell Caerdydd; Castell Coety; Castell Caerffili; Castell Cyfarthfa; Castell Dwnrhefn; Mynachlog Nedd; Rhaeadrau yng Nghwm Nedd; Goleudy'r Mwmbwls; Porthladd Abertwe a'r hen bont ym Mhontypridd.

Am wybodaeth bellach a delweddau cysylltwch â:
Llŷr Griffiths-Davies, Swyddog y Wasg LlGC: 01970 632565
lgd@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk

Cystadleuaeth Iolo Morganwg

Rhagor o gerddi llwyddiannus y gystadleuaeth a feirniadwyd gan Ifan Roberts.

Petaswn i'n filiwnydd

Petaswn i'n filiwnydd
Fe brynwn ni palas o dŷ
Car cyflym i dad
Jacuzzi i mam
Pwll nofio, cwrt tennis i mi.

Petaswn i'n filiwnydd
Fe deithiwn i'r byd
Sbaen, America, Affrica, y gwledydd i gyd
Torheulo neu sgio neu nofio bob dydd
Dim ysgol, dim gweithio hwre amser rhydd!

Petaswn i'n filiwnydd
Fe brynwn i dîm pêl-droed
Manceinion, Castell Newydd neu Chelsea?
Na Lerpwl y tîm gorau erioed!

Petaswn i'n filiwnydd
Fe roddwn i arian
I helpu achosion da
Oxfam, Shelter, Tŷ Hafan a'r groes Goch
A Cancer Research UK.

Joshua Nadimi
Ysgol Gyfun Llanhari

Breuddwyd

Boddi mewn tywyllwch
Teimlaf y diferion yn disgyn
O'r cwmwl du diflas uwchben
Sy'n gorchuddio pelydrau'r haul.

Bu'r gwynt yn afreolus
Wrth chwythu'n wyllt fel fflam
Bu sŵn y storm yn erchyll
Yn gorchuddio yr awyr las.

Rhedeg mor gyflym â'r gwynt
Ond nid yw fy nghoesau yn symud
Ni gyrhaeddais nunlle
Dal yn sownd yn yr hunllef.

O'r diwedd dechreuais symud
Lle mae'r haul yn tywynnu'n braf
Deffro yn fy ngwelu
Yn sych, yn dwym ac yn saff.

Bethan Davies
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Awydd

Car, a'r
gwylie i `Merica ha 'dwetha'!

A ydy awydd yn newid?

Awydd yr hen oed.
Awydd i ymlacio,
Awydd am wyrion,
Awydd i ddweud hen straeon,
sy' wastad yn dechrau a'r geiriau ,
"yn yr hen ddyddiau"
sydd nawr wir yn golygu rhywbeth.

Awydd i weld eu plant yn llwyddo,
Awydd i weld eu wyrion yn tyfu,
Awydd i gofio, a chael eu cofio,
Awydd i fwynhau.

A ydy awydd yn newid?

Huw Wilcox
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Breuddwyd

Arhosais yn amyneddgar i fy llygaid ddechrau teimlo'n drwm,
Arhosais yn ddisgwylgar i'r syndod i ddechrau,
Arhosais am y freuddwyd!
Eisteddais yn fy ngwely yn aros i'r matres i dyfu dannedd
er mwyn dechrau bwyta fy nghorff bach gwelw.
methais cau fy llygaid, arhoson nhw ar agor
fel bod rhyw chlam yn gwrthyrru'r amrannau
Arhosais am oriau, yn aros i'r foment fawr i gychwyn
Daeth y foment, suddais i môr y matres, i fywyd hollol wahanol -
bywyd y breuddwydion.

Gwelais pobl diethr yn cerdded o gwmpas,
Gwelais leoliadau diethr yn hedfan ar gylch mawr y ddaear
Gwelais, teimlais enaid angylion, yn eu gwisgoedd ysgafn, gwyn
Yn debyg i blu eira yn ysgafn-droedio o amgylch y byd
Arhosais, gwyliais, wrth i'r angylion fyw bywyd pob dydd,
Roeddwn i yno, yn sefyll yn stond
Ymhlith yr angylion gwelw
Yn byw, anadlu'r profiad, y profiad mae pob plentyn ifanc am fyw
Adenydd ysgafn, sgleiniog, fel clystiau blewog cwningen.
Roeddwn ni moen bod yn angel trwy gydol fy oes,
Nawr roeddwn i'n cael y cyfle, y profiad.
Deffrais! Cofiais!
Gwenais!

Jessica Stagg
Ysgol Gyfun Rhydfelen

chapter

Swyddfa Docynnau: 029 20304400

Y Drindod @ Chapter
Llun 29 Maw - Sad 3 Ebrill
Wythnos o berfformiadau, arddangosfeydd, cynhyrchiadau a gweithdai ar draws rhychwant o feysydd sy'n rhan o Gyfadran Y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol Coleg Y Drindod Caerfyrddin.

Yn cynnwys gweithdai Ysgrifennu, Adolygu, Golygu, Cyflwyniad i Ysgrifennu Teithio, King Lear a Ysgrifennu Sgriptiau Byrion. Fydd y myfyrwyr yn perfformio sioe rifiw I'r Bur Hoff Bae!, Cerdd a Monologau a It Would Be Best If Birds Did Not Sing In Cages...

Am rhagor o wybodaeth am digwyddiadu unigol ffoniwch y Swyddfa Docynnau ar 029 2030 4400. www.chapter.org

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Bethan Griffith

Dyweddio
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu dyweddiad
..... i Angharad, merch Wyn a Gill Rees, Llys y Coed sydd wedi dyweddio a Mark Evans o Aberaeron. Mae Mark yn gyfreithiwr yn y byd ariannol yn Llundain ac mae Angharad yn cychwyn ar swydd newydd fel Cyfreithwraig i'r byd cyfryngau yn Llundain.
.....i Catrin, merch Ifan a Margaret Roberts, Ty Cnau sydd wedi dyweddio â John Manel o Lundain. Mae John yn gweithio yn y BBC yn Llundain a Catrin gyda chwmni Elidir yng Nghaerdydd.

Dymuniadau da i'r ddau bar i'r dyfodol.

Croeso nôl
..... i Rowland a Marian Wynne sydd wedi dychwelyd o Fecsico wedi dathlu priodas eu mab, Rhodri.

Pob hwyl
.....i Judith Evans, Maes y Sarn wedi iddi gael triniaeth ar ei llygaid yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn holliach erbyn hyn.

Clwb y Dwrlyn
Bu'r Clwb yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff Radur ar brynhawn Sul olaf mis Chwefror. Y gwr gwadd oedd y darlledwr Alun Wyn Bevan a rhoddodd stori bwrpasol i'r plant a chafwyd hanesion o fyd y campau.

Roedd yr achlysur yn gyfle i nodi cyfraniad ariannol Clwb y Dwrlyn i Ysgol Craig y Parc.

Gohebydd newydd
Hoffwn ei wneud yn hysbys, fy mod am ymddiswyddo fel gohebydd Pentyrch. Diolch yn fawr i'r ychydig a fu yn bwydo newyddion i mi yn fisol, yn arbennig i Haulwen.Ychydig iawn o newyddion byddai wedi ei gynnwys hebddi.

Mae Tafod Elái yn edrych am ohebydd newydd. Beth am gynnig amdani? Buasai'n siomedig i golli newyddion y pentref. Os oes gennych ychydig o amser sbar, ac am rhoi cynnig arni, cysylltwch â

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Priodas Ddeiamwnt
Yn enedigol o Abertawe mae Mr Roy Pickard ond bu'n rhaid iddo deithio i Fethesda i gwrdd â'i ddarpar wraig, Hazel. Roedd hyn yn sgil cael ei ddanfon i'r Gogledd er mwyn ei baratoi i wasanaethu dros ei wlad adeg y rhyfel. Dyna, mae'n rhaid, un o hanesion hapus y cyfnod hwn. Wedi cartrefi ym Methesda ac yna ym Mangor sefydlon yn Nhonteg ym 1987 ac ar y cyntaf o Ebrill byddant yn dathlu eu Priodas Ddeiamwnt. Estynnir y dymuniadau gorau i'r ddau oddi wrth yr ardal gyfan a'u llongyfarch yn wresog. Dyma gyfle hefyd i ddiolch iddynt am eu croeso a'u diddordeb cyson ym mhawb a phopeth.

Priodas Aur
Llongyfarchiadau mawr i Harri ac Anneira Davies ar ddathlu eu priodas aur ym mis Mawrth. Fe gwrddodd y ddau dros hanner canrif yn ôl mewn dawns yn neuadd y Rink yn y Porth. Ar y pryd roedd Anneira yn nyrs yn ysbyty Dwyrain Morgannwg a Harri yn athro – a hanner can mlynedd yn ddiweddarach mae'r ddau yn dal i fod gyda'i gilydd ac yn para i fwynhau a rhannu pob hwyl a direidi ac yn barotach fyth i estyn llaw lle bo angen.

Mae'r ddau wedi byw yn Nhonteg ers y pumdegau ac wedi cyfrannu i fywyd a diwylliant yr ardal. Fe fagon nhw ddwy ferch ym Mhlasgwyn – sef Sian Wyn a Nerys Wyn, ac mae'r ddau erbyn hyn yn famgu a thadcu i Catrin a Bethan, merched Sian a Fran.

Cafwyd cryn ddathlu yn ystod y mis diwethaf, gan orffen gyda phenwythnos braf ym Mhortmeirion.

Pob hwyl i'r ddau.

Eu dwy gân fu'n gynghanedd ar y cyd
am hanner can mlynedd
hardd o fyw. Y ddau a fedd,
o'u ddoe, ddeuawd diddiwedd.

T. James Jones

Capel Salem
Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelwyd eisiau tri aelod ffyddlon yn y gwasanaethau. Danfonir ein dymuniadau gorau i Mrs Betty Tilling sydd eto yn yr ysbyty - mae pawb yn cofio ati yn gynnes iawn. Anhwylder sydyn ddaeth ar draws Mrs Gwyneth Hughes a Mrs Nesta Rogers ac mae'r aelodau'n edrych ymlaen yn fawr iawn at eu gweld yn ein plith yn y dyfodol agos. Mae'r bwlch yn fwy am fod y ddwy yn gamsters am gymeradwyo ac edrych ar ôl y gweddill ohonom.

Bu yna destun dathlu a mwynhau yn hanes y Capel hefyd. Yn gyntaf derbyniwyd y newyddion, heb unrhyw rybudd, fod ein gweinidog wedi cyrraedd carreg filltir bwysig iawn o ran oedran - rhywle rhwng y deugain a'r trigain! Mae'n deg i ddeall fod y rhai sydd wedi ei weld yn trafaeli i fyny ac i lawr rhiwiau'r ardal ar ei feic yn credu mai celwydd yw'r cyfan a'i fod heb gyrraedd ei ddeugain eto! Ta waeth, bu'r achlysur
yn gyfle i'r teulu cyfan i drefnu aduniad gyda ffrindiau o bellter maith i rannu'r profiad hapus yng nghartref ef a Lynn. Estynnir llongyfarchiadau'r aelodau i gyd i'r Parchedig Peter Cutts gan ddymuno pob bendith a nerth iddo i gario `mlaen a rhannu ei gyfeillgarwch yn yr ardal gyfan.

Yn ail, derbyniwyd chwech pherson yn gyflawn aelodau yn ystod gwasanaethau'r Sul ar ddechrau Mis Mawrth. Mae'n deg i ddweud fod Eilian a Bernice Williams, Betty Thomas, Brenda Davies, Shirley Brooks ac Elaine Evans wedi bod yn gyfranwyr selog i'r achos ers cyfnod hir ond mae'n galonogol iawn i weld nifer yr aelodau'n cynyddu'n swyddogol. Diolchir yn dwymgalon i'r chwech am ddewis i gymryd y cam hwn.

Cafwyd yr uchafbwynt i ddathliadau Gŵyl Ddewi yng nghyfarfod y Gymdeithas ar ddechrau'r mis. Erbyn nawr ystyrir nad oes unrhyw ddathliad Cymreig yn gyflawn heb gyfraniad gan y delyn ac roedd medru croesawu Miss Ceri Anwen a'i thelyn yn gyfle delfrydol i wireddi'r traddodiad hwn. Cydnabyddir Ceri Anwen fel telynores dalentog iawn ac fe ysbrydolwyd pawb wrth iddi rannu ei gwybodaeth a'i thalent a'i gwneud yn noson gofiadwy. Gwyddir fod Ceri Anwen yn rhoi o'i gorau beth bynnag fo'r achlysur a diolchir iddi o waelod calon am roi o' i hamser prin i ddifyrru a chyfoethogi profiadau y Gymdeithas hon.

DYSGWYR YN DATHLU DYDD GWYL DEWI

Eleni eto daeth myfyrwyr Cymraeg i Oedolion at ei gilydd i ddathlu eu Cymreictod. Roedd tri chinio wedi'u trefnu - oes mae 'na alw am dri! Ond, fe ddaeth yr eira a bu'n rhaid canslo'r un yn Aberdâr ac Alun Thomas y BBC, y brodor o Aberpennar, wedi bod wrthi'n ddyfal ddysgu'i araith ers wythnosau! Gobeithio y cawn dy gwmni rhywbrydeto Alun.

Nos Fawrth 2 Mawrth, cynhaliwyd noson arall ym Mwyty Seasons, Coleg Pen-y-bont. Gofalwyd am y trefniadau gan ddau Gymro Cymraeg adran arlwyo'r coleg sef Tony Trumper ac Anthony Leyshon. Cafodd y trigain oedd yn bresennol, noson ddiddorol tu hwnt yng nghwmni'r Parchedig John Gillibrand, cyn-enillydd Tlws Dysgwr y Flwyddyn (Eisteddfod Cwm Rhymni 1990)

Nos Lun, noson yr ŵyl, daeth trigain arall o fyfyrwyr seloca dosbarthiadau ardal Taf Elái ynghyd. Bu'n rhaid siomi rhyw ddwsin a adawodd pethe'n rhy hwyr. Paratowyd a gweiniwyd y pryd pedwar cwrs gan fyfyrwyr adran arlwyo Coleg Morgannwg ym Mwyty Lemon Tree, campws Rhydyfelin.

Cafwyd anerchiad difyr dros ben gan CRAIG DUGGAN. Aeth â'r dysgwyr ar daith llawn hiwmor o Baris i Foscow, o Nice i Efrog Newydd gan rannu rhai o'i brofiadau fel newyddiadurwr y BBC. Adroddodd ei hanes yn cyfweld Bryn Terfel a Gwyn Hughes Jones yn Neuadd Carnegie a'i hanes yn ymddiried ei einioes yn nwylo gorffwyll Dimitri'r gyrrwr tacsi ym Moscow. Uniaethai'r gynulleidfa â hanes ei gyfweliad rhyfeddol ag Eva cyn gêm beldroed Cymru a Rwsia. Dyma'r ferch a fagwyd yn ninas Moscow a ddysgodd y Gymraeg am iddi syrthio mewn cariad â'r chwedlau Arthuraidd. Erbyn hyn, mae ganddi hi dosbarth Cymraeg ei hunan - mae'n diwtor i ddeg Rwsiad arall sy am ddysgu'r Gymraeg.

Er fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i ddarparu'n effeithiol gan Siân Edwards ar gyfer y dechreuwyr, prin bod ei hangen, cystal yw sgiliau cyfathrebol Craig. NEWYDDION mawr y noson oedd mai nid y BBC fyddai'n elwa ar ei ddoniau yn y dyfodol. Cyhoeddwyd fod Craig, nid yn unig yn gadael y BBC ond y mae ef, Ffion a'r tri phlentyn yn gadael yr ardal. Penodwyd Craig yn Swyddog y Gymraeg Cyngor Powys. Bydd Clwb y Bont yn gweld ei eisiau gan fod ei gyfraniad fel trysorydd ac aelod o'r pwyllgor wedi bod yn sylweddol dros y blynyddoedd. Bydd Ysgol Evan James hefyd yn hiraethu am y plant. Rydym i gyd fel cymuned yn dymuno pob hapusrwydd a llwyddiant iddynt ym Mhowys, yn ardal enedigol Ffion. Ond, dywed Craig y byddant yn dal i gadw mewn cysylltiad agos â Ponti.

A dyna Ddydd Gŵyl Dewi arall drosodd am flwyddyn arall pan fydd pawb ymhellach ar hyd y ffordd i feistroli'r iaith. Hei lwc i bob un - daliwch ati bois!

Gwyliau Bythgofiadwy!

PATAGONIA

Hydref 2004

Am fanylion pellach cysylltwch ag
Ann-Marie a Tito Lewis, 87 Tal-y-coed, Yr Hendy,
Pontarddulais, Abertawe, SA4 0XR.

01792 – 881155
e-bost: annmarielew25@hotmail.com

CROESAIR COL

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.



Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 17 Ebrill 2004

AR DRAWS

1. Dechrau plygu rhan o ugain yn y bore bach (7)
5. Cymerwch gant o arian treigl De Affica i gael rhywbeth godidog. (5)
8. Yn llai na deg allan o ddeg ond y radd uchaf i'r nefoedd. (3)
9. Beio Garin am wneuthur cytundeb (9)
10. Diar! Daw un â saim (5).
12. Oherwydd Dil G. O.B.E. (7)
13. Cymryd o'r bryn i'r de (6)
15. Yn anad dim bydd yn sarrug (6)
18. O flaen y perth—brad fwriadu (7)
19. Cic yn rygbi neu breswylfa (5)
20. Braidd gewch fod yn haerllug (9)
21. Â hanner cant i'r lôn mewn balchder (3).
22. Nêr od. Sylwch. (5)
23. Cymryd bath yn Oslo—yn perthyn i'r seithfed dydd (7)

I LAWR

1. Nid pais gewch gan granc (7).
2. Llanc neu wr bach bonheddig (3)
3. Ar wely yn Lloegr ac yn achub (5)
4. Mae'r marc yn dilyn y cryfder yn rymus (6)
5. Yn creu lôn mae'n echrydus (7)
6. Annog i nôl ond mae'n simsan a diffygiol (9)
7. Heb heneiddio a heb golli amser (5).
11. Dim yn hollol rhamantaidd am foment (9)
14. Mae wyth gram yn pwyso (7)
16. Nod y mul yw bod yn bleserus (7)
17 Mae Andreas yn dipyn o gnaf (6)
18. Daw mewn cab annisgwyl i'r cwt (5)
19. Cefais orchymyn yn yr arch eb Noa (5)
21. Ewch tair troedfedd i nôl y ffôn (3).

ATEBION MIS MAWRTH

		A		O		C		C		S		
C	A	N	O	L	B	W	Y	N	T	I	O	
Y		E		H		E		E		N		Y
F	A	R	N	A	I	S		I	N	C	W	M
A		CH		U		T		F				A
R	E	I	S		G		E	I	DD	G	A	R
W		A		C	R	I	B	O		W		F
Y	M	D	A	R	O		E		T	Y	L	E
DD				Y		H		A		N		R
W	A	E	T	S		A	N	N	I	G	R	I
R		R		T		F		W		A		A
	C	Y	D	Y	M	D	E	I	M	L	A	D
		R		N		Y		R		CH		

ffilmiau'r bont

Annwyl Bawb,

Ydych chi'n perthyn i Barti Ddu? Yn gweld eich hun yn debyg i Marilyn Monroe? Efallai eich bod yn etifedd i ewyllys enfawr a chithe'n gwybod dim am y peth. Bron yn fisol, mae rhywun yn darganfod eu bod nhw'n perthyn i un o dywysogion Cymru.

Rydyn ni'n chwilio am unrhyw straeon difyr am achau (wedi eu profi'n wir, neu si yn unig). Unrhyw hanes am berthynas difyr, neu enwog, straeon am ewyllysiau neu gerrig bedd rhyfedd, neu ddafad ddu yn y teulu. Ydych chi'n gwybod am bethau sy'n cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth e.e. recipie cyfrinachol, hen gar, cwilt, neu nodwedd arbennig sy'n cael ei etifeddu yn y teulu - gwallt coch, trwyn mawr, dawn arbennig?

Mi fydden ni wrth ein bodd yn cael clywed eich straeon. Mi allwch gysylltu a ni ar y we eryl@bont.tv neu nia@bont.tv neu ar y ffon: 01286 677225
neu anfon llythyr at:

Eryl Humphreys, Ffilmiau'r Bont,
Y Ganolfan Deledu, Cibyn
Caernarfon LL55 2BD

Edrychwn ymlaen at gael sgwrs.



Y Drindod TRINITY @chapter...

Dewch i fwynhau gwaith myfyrwyr Coleg y Drindod Caerfyrddin, Coleg y Gymru Gyfoes. Bydd ein taith gyntaf i'r brifddinas yn rhoi cyfle i chi fwynhau wythnos o berfformiadau, arddangosfeydd, cynyrchiadau a gweithdai ar draws rhychwant o feysydd.

Archif Yfory

Bydd Robert Francis Venus, myfyriwr ar ei flwyddyn olaf yn y cwrs BA Celf Gain, yn creu gwaith gosod yn ymwneud â hunaniaeth Cymru mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol. Bydd y darn yn cynnwys casgliad archif o eitemau wedi'u rhoi gan bobl, gyda phob un yn dangos gweledigaeth bersonol y rhoddwr ynghylch beth yw bod yn Gymro neu'n Gymraes yng Nghymru heddiw. Gwahoddir rhoddion ymlaen llaw a hefyd yn ystod wythnos y gosodiad. Ni ellir dychwelyd eitemau. Am ddim.

Miwsig a Monologau

Rhaglen amrywiol o glasuron cerddoriaeth gyfoes gyda rhaglen o fonologau cyfrwng Cymraeg yn dilyn. Am ddim.

Ysgrifennu, Adolygu, Golygu

Cwrs dwys dau ddiwrnod drwy gyfrwng y Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn naill ai a) newyddiaduraeth a'r diwydiant cyhoeddi neu b) cyhoeddi eu gwaith eu hunain. Dr Victor Golightly, cyn-olygydd y New Welsh Review sy'n cynnal y cwrs, fydd yn gyfuniad o ddarlithiau a gweithdai. Pris: £20 (£10)

Cyflwyniad i Ysgrifennu Teithio

Cwrs undydd drwy gyfrwng y Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn unrhyw agwedd o ysgrifennu teithio. John Harrison yr awdur fydd yn addysgu'r cwrs. Anogir myfyrwyr i ddod â'u gwaith eu hunain i'r gweithdy ac i gyfrannu i'r trafodaethau. Pris: £10 (£5).

Ysgrifennu Sgriptiau Byrion

Cwrs ysgrifennu cyfrwng Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn cyfansoddi sgript fer tri munud. Fe'i addysgir gan Michele Ryan y gwneuthurwr ffilmiau, a bydd hi'n mynd â myfyrwyr drwy'r holl broses greadigol o ysgrifennu sgriptiau. Pris: £10 (£5).

Gweithdy King Lear

Cwrs testun yn canolbwyntio ar holl agweddau'r ddrama King Lear, gan gynnwys ei chyd-destun hanesyddol a sut i ddarllen y ddrama. Fe'i addysgir gan Dr Richard Chamberlain, ac fe fydd yn addas i unrhyw un sydd â diddordeb yn nhrasiedi fawr Shakespeare. Pris: £10 (£5).

I'r Bur Hoff Bae!

Beth mae Caerdydd yn ei olygu i chi? a) Prifddinas leuengaf Cymru, b) Dinas ddi-nod sy'n sugno'r holl dalent, swyddi a'r potensial o weddill Cymru neu c) "Meindiwch eich busnes. Chi bobol gyda'ch blydi cwestiwnêrs - chi'n waeth na dybl glêsing sêlsmen, myn uffern i!" Os ateboch A, B neu C i'r uchod, mae angen dos o sioe rifiw ddychanol arnoch chi, felly dewch ar siwrne ffraeth a ffiaidd drwy ein prifddinas gyda myfyrwyr Y Drindod! Pris: £5 (£3) anaddas i blant.

It would be best if birds did not sing in cages...

Mae'r darnau byrion hyn yn deillio o archwiliad y myfyrwyr i'r syniadau am hunaniaeth ddynol yn theatr yr ugeinfed ganrif. Ar ôl astudio dramodwyr megis Beckett, Lorca a Pinter, yn ogystal â mudiadau artistig megis Dadayddiaeth, ymatebodd y myfyrwyr trwy waith dyfais i greu eu cynhyrchiad eu hunain. Am ddim.

Swyddfa Docynnau
Chapter: 029 2030 4400
neu Coleg y Drindod: 01267 676767

Llun 29 Mawrth
10am-4pm Ysgrifennu, Adolygu, Golygu

Mawrth 30 Mawrth
10am-4pm Ysgrifennu, Adolygu, Golygu
drwy'r dydd Archif Yfory

Mercher 31 Mawrth
10am-4pm Cyflwyniad i Ysgrifennu Teithio
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
8.00pm It would be best if birds did not sing in cages...
drwy'r dydd Archif Yfory

Iau 1 Ebrill
10am-4pm Gweithdy King Lear
12.30pm Miwsig a Monologau
1.30pm It would be best if birds did not sing in cages...
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
drwy'r dydd Archif Yfory

Gwener 2 Ebrill
10am-4pm Gweithdy King Lear
12.30pm Miwsig a Monologau
1.30pm It would be best if birds did not sing in cages...
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
drwy'r dydd Archif Yfory

Sadwrn 3 Ebrill
10am-4pm Ysgrifennu Sgriptiau Byrion

COLEG Y DRINDOD CAERFYRDDIN